

Cytundeb Chweched Dosbarth

Rhesymeg

Pwrpas y cytundeb yma yw gosod disgwiliadau ohonoch fel myfyriwr chweched dobarth. Bydd yn eich cynorthwyo i gyrraedd eich potensial.

Mae perthynas waith dda rhwng y staff a myfyrwyr y chweched dosbarth yn holl bwysig. Rhaid i'r berthynas yma fod yn seiliedig ar barch, ffydd, dibynadwyedd a gonestrwydd.

Gofynion Mynediad

Er mwyn cael cynnig lle yn Chweched dosbarth Ysgol Morgan Llwyd mae disgwyl i chi fod wedi llwyddo i ennill o leiaf 5 gradd A* - C yn eich arholiadau TGAU gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg. (Mae modd ail sefyll Saesneg a Mathemateg os yw'r pennaeth adran yn eich caniatáu ac ar yr amod eich bod yn mynychu gwersi ail-sefyll)

Mae cynnig chweched dosbarth yn golygu fod rhaid i chi astudio o leiaf 3 chwrs Uwch Gyfrannol/ Uwch a'r Fagloriaeth. ***Os nad ydych yn llwyddo i wneud cynnydd addas o ganlyniad i ddiffyg ymdrech neu bresenoldeb mae gan yr ysgol hawl i'ch rhyddhau o'r contract yma a gofyn i chi adael yr ysgol.***

Presenoldeb

Mae gan y Brifathrawes gyfrifoldeb dros eich iechyd a diogelwch tra eich bod ar safle'r ysgol. Mae'n hanfodol bwysig felly eich bod yn dilyn y rheolau o ran presenoldeb er mwyn i staff wybod pwy sydd ar safle'r ysgol a phwy sydd ddim. (e.e. achos dril tân)

Bydd yr athrawon yn nodi eich presenoldeb mewn gwersi drwy system SIMS yr ysgol. Bydd disgwyl i bawb ddefnyddio'r system mynediad wrth fynd i fewn i adeilad y chweched fel rhan o'r system cofrestru. Os yw rhywun yn cael eu darganfod yn yr adeilad heb fod wedi cofrestru yna bydd rhybudd yn cael ei roi.

Mae disgwyl i chi fynychu sesiynau mentora rheolaidd gyda'ch tiwtor personol.

Gwersi

Mae'n rhaid i fyfyrwyr y chweched fynd i bob gwersi sydd wedi cael ei nodi ar yr amserlen; rhaid i chi gyrraedd yn brydlon.

Os oes gennych unrhyw apwyntiadau meddygol yna rhaid i chi roi gwybod i Bennaeth y Chweched. Os ydych yn sâl a ddim yn bwriadu bod yn bresennol yn yr ysgol mae disgwyl i chi neu riant/gwarcheidwad ffonio i egluro pam erbyn 9.00 o'r gloch. Os ydych yn sâl yn ystod y dydd mae disgwyl i chi ddweud wrth bennaeth y chweched cyn mynd adref. Os ydych yn sâl am gyfnod hir (5 diwrnod) yna bydd angen llythyr doctor.

Ni ddylech fynd ar wyliau yn ystod y tymor, os ydych yn dymuno mynd ar wyliau yn ystod y tymor dylech drefnu i weld y pennaeth blwyddyn a gwneud cais swyddogol

Os yw'ch presenoldeb yn peru pryder i'ch athrawon yna bydd rhaid i chi fynychu cyfarfod gyda Phennaeth y Chweched i drafod cynllun gwelliant. Os nad yw'ch presenoldeb yn gwella o fewn 4 wythnos ysgol yn dilyn y cyfarfod yna bydd disgwyl i chi fynychu cyfarfod gydag aelod o'r uwch dim rheoli. Os yw'ch presenoldeb yn parhau i fod yn achos pryder yna bydd angen i chi a'ch riant/gwarcheidwad fynychu cyfarfod brys gyda'r Pennaeth Blwyddyn i drafod eich dyfodol yn y Chweched.

Ni ddylech wneud gwaith cyflogedig yn ystod oriau ysgol.

Gwaith Annibynnol

Mae ystafell arbennig ar eich cyfer yn adeilad y chweched er mwyn i chi adolygu'n annibynnol, cymryd cyfrifoldeb dros eich gwaith eich hun, cwblhau gwaith dosbarth a gwaith cartref ac i gwblhau astudio pellach annibynnol. Ni chaniatier bwyta nac yfed yn yr ystafell hon ar unrhyw adeg heblaw am resymau meddygol yn unig. Mae disgwyl i bawb sy'n defnyddio'r ystafell astudio barchu eraill yn yr ystafell.

Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth yn yr ystafell yma heblaw drwy glustffonau. Os yw'r sŵn yn rhy uchel yna bydd gofyn i chi adael yr ystafell. Mae cyfarpar ar eich cyfer i rannu eich gwaith gydag eraill er mwyn cyd-weithio. Ni chaniateir defnyddio'r cyfarpar yma am unrhyw reswm heblaw gwaith ysgol. Os ydych yn cael eich dal yn camddefnyddio'r ardal yma byddwch yn derbyn rhybudd ffurfiol. Ni roddir ail rybudd i ddisgyblion y chweched ond yn hytrach bydd eich caniatad i wneud defnydd o'r ardal astudio a'r ardal gymdeithasu yn cael ei dynnu yn ôl.

Ardal Cymdeithasu

Mae ardal cymdeithasu ar gael i bob aelod o'r chweched dosbarth ddefnyddio. Disgwylir i fyfyrwyr barchu'r ardal yma gan sicrhau fod yr ardal yn lân ac yn daclus ar ddiwedd pob diwrnod ysgol. Mae cegin pwrpasol ar eich cyfer, disgwylir i chi sicrhau fod yr ardal yn lân ac yn daclus ar ddiwedd pob diwrnod ysgol. Os oes llanast yn yr ardal yma yna bydd bloc y chweched yn cael ei gloi nes y bydd yr ardal wedi cael ei lanhau gan y myfyrwyr. Ni fydd yr ysgol yn talu am lanhawr i dacluso llanast eithriadol.

Mae sgrin teledu hefyd ar gael yn yr ardal yma ar eich cyfer. Mae croeso i fyfyrwyr wneud defnydd o'r sgrin yma. Os yw'r adnodd yn cael ei gam-ddefnyddio yna bydd rhybudd yn cael ei roi. Ni roddir ail rybudd i ddisgyblion y chweched ond yn hytrach bydd eich caniatad i wneud defnydd o'r ardal gymdeithasu yn cael ei dynnu yn ôl.

Dewch a'ch dyfais eich hun (BYOD)

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn awyddus i gefnogi system 'Dewch a'ch dyfais eich hun'. Rydym yn eich annog i wneud defnydd o'ch glieniaduron, tabledi a ffonau fel rhan annatod o'ch gwaith yn y chweched dosbarth. Mae modd i chi gysylltu gyda'r we ar eich offer eich hun ond nid oes hawl i ch:-

- wneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol drwy we yr ysgol
- lawrlwytho ffeiliau answyddogol drwy we yr ysgol

Os nad oes gennych chi offer eich hun, mae 15 Chromebook, 5 glieniadur a 5 iPad ar gael i chi ddefnyddio. Os ydych yn achosi difrod i'r offer yma bydd disgwyl i chi dalu dirwy. Mae'r offer ar gael ar gyfer pwrpas gwaith yn unig. Ni chaniateir i chi ddefnyddio'r offer yn yr ardal gymdeithasu. Er mwyn defnyddio'r offer ac er mwyn cysylltu â'r we gyda'ch dyfais eich hun bydd rhaid arwyddo cytundeb penodol.

Rhaid diffodd eich ffon symudol mewn gwersi (os nad ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer gwaith) a'i ddefnyddio'n gynnil (discreet) o amgylch y safle NID o flaen disgyblion iau, e.e. ar y coridor neu yn y ffreutur

Y Gymraeg

Wrth gwrs, disgwylir i chi barchu ethos yr ysgol a siarad Cymraeg gyda staff a gyda chyfoedion a disgyblion iau, yn enwedig yng ngŵydd staff.

Gwisg Addas

Nid oes disgwyl i fyfyrwyr y chweched dosbarth wisgo gwisg ysgol. Serch hynny mae disgwyl i bob myfyriwr chweched dosbarth barchu eu rol o fewn yr ysgol. Gofynnwn i bob myfyriwr osod esiampl dda drwy wisgo'n addas ac mewn modd barchus. Mae gan Bennath y Chweched dosbarth hawl gofyn i unrhywun sy'n gwisgo'n amhriodol i addasu'i gwisg.

Ysmygu

Ni chaniateir ysmygu ar dir yr ysgol.

Maes Parcio

Mae maes parcio penodol ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth. Os ydych yn gwneud defnydd o'r maes parcio rydych yn gwneud hynny dan yr amod nad yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw ddifrod i'ch car.

Blaendal

Mae disgwyl i bob myfyriwr dalu blaendal o £10 wrth arwyddo'r cytundeb yma. Bydd yr arian yn cael ei ddychwelyd i chi yn llawn ar ddiwedd eich cyfnod yn yr ysgol cyn belled nad ydych wedi cael eich dal yn achosi difrod yn yr adeilad. Mae hyn yn cynnwys difrod i ddodrefn o ganlyniad i amharch (traed i fyny), difrod i'r offer sydd ddim yn ddamweiniol, difrod i'r waliau megis graffiti ayb.

Os ydych yn achosi difrod yn ddamweiniol mae'n rhaid i chi adael i Bennath y Chweched wybod yn syth. Os nad ydych yn gwneud hyn yna bydd yr ysgol yn gwneud defnydd o'ch blaendal i dalu am y difrod. Mae gan yr ysgol yr hawl i roi bil ychwanegol i chi am unrhyw ddifrod costus.

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen drwy'r cytundeb yma, yn cytuno i'w weithredu fel myfyriwr yn y chweched dosbarth yn Ysgol Morgan Llwyd ac yn deall goblygiadau unrhyw ymddygiad annerbyniol a nodir o fewn y cytundeb yma.

Rwyf yn cytuno i dalu £10 fel blaendal. Deallaf y bydd y blaendal yma yn cael ei ddychwelyd i mi ar ddiwedd fy nghyfnod fel myfyriwr chweched dosbarth yn Ysgol Morgan Llwyd cyn belled nad wyf yn achosi difrod.

Enw : _____

Llofnodwyd : _____ Dyddiad: _____

(Myfyriwr)

Llofnodwyd : _____ Dyddiad: _____

(Pennaeth y Chweched)

Llofnodwyd : _____ Dyddiad: _____

(Prifathrawes)